

3. TARDDIAD CANOLOESOL Y CELTIAID MODERN

Erbyn diwedd yr Ymerodraeth Rufeinig yn y 5G OC roedd iaith y Celtiaid ar y cyfan wedi ildio i'r Lladin ar y Cyfandir, ond yn parhau i fod yn fyw ar Ynysoedd Prydain. Erbyn 500OC, rhyw ganrif ar ôl diwedd yr Ymerodraeth Rufeinig, cawn fod tair carfan amlwg o Geltiaid, sef y Brythoniaid, y Gaeliaid a'r Pictiaid, a phob un o'r rhain yn ddiweddarach yn gwahanu i deyrnasoedd bychain annibynnol ac ar wahân. Erbyn 1100OC, tua chwe chanrif yn ddiweddarach, dim ond ar ymylon gorllewinol a gogleddol Prydain yn unig yr oedd y Celtiaid. Roedd y Pictiaid wedi diflannu, y Brythoniaid wedi rhannu yn Gymry, yn Gernywiaid ac yn Llydawyr, tra oedd y Gaeliaid hyd yn oed bryd hynny wedi dechrau rhannu i'r hyn a fyddai'n ddiweddarach yn Gaeliaid Iwerddon (Gwyddelod), Gaeliaid Manaw a Gaeliaid yr Alban. Y chwe phobl hyn oedd cnewyllyn gwledydd Celtaidd canoloesol yr Alban, Ynys Manaw, Cymru, Cernyw a Llydaw a rhoddir ystyriaeth unigol iddynt isod.

3.1 Y BRYTHONIAID (5G–7G)

Y Brythoniaid (neu Frytaniaid i ddefnyddio term mwy amwys) oedd yn byw ym Mhrydain adeg y Rhufeiniaid, i'r de o guldir Forth-Clyde. Roeddynt wedi byw am fwy na 350 o flynyddoedd o dan reolaeth y Rhufeiniaid ac yn wir hyd yn oed wedi'u gwneud yn ddinasyddion Rhufeinig erbyn 212OC ac wedi'u rhufeineiddio. Erbyn diwedd cyfnod y Rhufeiniaid, tybir bod Lladin wedi dod yn iaith feunyddiol trefi ac ardaloedd de-ddwyrain Lloegr (yn fras mewn llinell o Efrog i Southampton), ond efallai fod y boblogaeth hon a rufeineiddwyd wedi dianc i'r Cyfandir ar ôl hynny. Serch hynny, ar ôl i lywodraeth Rhufain adael Prydain yn 410OC, nid oes amheuaeth bod ardaloedd gorllewinol eraill y taleithiau Rhufeinig nad oedd wedi ildio i'r gorchfygwyr Ellmynig yn arddangos nodweddion ieithyddol Celtaidd amlwg.

Y cliw cyntaf a'r un sylfaenol yw bod y Gelteg wedi'i chadw, er gwaethaf y cymysgedd termau o darddiad Lladin megis yn y Gymraeg *pont*, *ffenestr*, *ysgrifen*, *diawl* ac ati. Yn ail, er gwaethaf parhad nifer o enwau Lladin megis *Arthur* (*Artorius*), *Custennin* (*Costantinus*), *Emrys* (*Ambrosius*), *Geraint* (*Gerontius*), *Gwidol* (*Vitalis*) ac ati, mae llawer mwy o enwau cyfan gwbl Geltaidd, megis yn Gymraeg *Arthnau*, *Brochfael*, *Cadwaladr*, *Cadwallon*, *Cynfarch*, *Cynfelyn*, *Cynfael*, *Gwrgi*, *Hywel*, *Rhiwallon*, *Tudyr* ac ati. Yn drydydd, yr hyn a welwn yng nghyfraith ganoloesol Cymru ac yma ac acw mewn ffynonellau Brythonig yw bodolaeth cyfraith carennnydd sy'n perthyn dim i gyfraith gyffredin Rufeinig.

Cyfeiriai'r Brythoniaid atynt eu hunain fel *Brithon* (ac o hyn y cawn y gair Cymraeg *Brython* a *Brezon* yn Llydaweg am y bobl a *Brythoneg* / *Brezoneg* am eu hiaith) ond wrth i'r Saeson Ellmynig wthio yn eu blaenau, cawsant eu gwahanu: yn gyntaf gwahanwyd cangen gogledd-

orllewin Prydain (a ddaeth yn Gymbriaid) ar ôl cael eu trechu yn ‘Dyrham’ ger Caerfaddon yn 577, neu efallai yn ddiweddarach erbyn dechrau’r 7G; yn ail gwahanwyd cangen orllewinol Prydain (a ddaeth yn Gymry) a’r gangen yn y gogledd-orllewin (a ddaeth yn Gymbriaid) ar ôl cael eu trechu yng nghanol y 7G. Mae’n rhaid bod nifer fawr o Frythoniaid wedi dianc i’r gorllewin yn ystod rhyfeloedd y 5G a’r 6G, ond nid yn unig am y gorllewin ond hefyd dramor i ddiogelwch rhannau eraill yr Ymerodraeth Rufeinig. Sefydlodd cangen o Frythoniaid ym mhenrhyn Armorica yng ngorllewin Gâl gan ddod yn Llydawyr, a sefydlodd cangen arall yng Ngalisia yng ngogledd-orllewin Sbaen.

Goroedd canghennau’r Gymraeg, Cernyweg a Llydaweg yn llawer hirach ac felly maent yn llawer mwy adnabyddus, a hyd yn oed er bod y Gernyweg wedi peidio â chael ei defnyddio gymaint erbyn y 18G, fe oroesodd mewn rhai ymadroddion ffosiledig hyd at yr 20G ac erbyn hyn mae wedi bod yn destun adfywiad. Er y cyfrifir hwy yn ieithoedd ar wahân, mae tystiolaeth bod cryn rhyngddealltwriaeth rhwng iaith y Cymry a’r Llydawyr yn y 12G a bod y Llydaweg a Chernyweg yn dal yn ddealladwy i’w gilydd yn yr 17G. Nid yw hyn yn wir rhwng y Gymraeg a’r Llydaweg heddiw (gellid deall graddau’r gwahaniaeth yn fras i fod yr un fath â’r gwahaniaeth rhwng Almaeneg a Saesneg).

3.2 GOROESIAD Y BRYTHONIAID YN LLOEGR

Mae dadl frwd yn dal ymlaen ynghylch y ffordd y meddiannwyd iseldir Prydain gan yr Ellmynwyr ar ôl cwmp yr Ymerodraeth Rufeinig, newid a arweiniodd at greu Lloegr a’r Saeson. Yn fras digwyddodd y newid hwn mewn cyfnod o 250 o flynyddoedd (410-660 OC). Yn wreiddiol credid bod y newid wedi golygu newid ethnig diwahân gyda’r Brythoniaid wedi’u difodi neu eu bwrw allan o’u tiroedd a’r Saeson wedyn wedi ymsefydlu ynddynt (y dehongliad ‘cataclysmig’), ond yn enwedig ers y 1960au mae wedi dod yn fwy ffasiynol i ystyried goresgyniad y Saeson fel gorfodi elît ar drwch o werin Frythonaidd sefydlog oedd ar y cyfan yn ddiymadferth ac yn ddi-hid (y dehongliad ‘parhad’). Efallai fod y dehongliadau ‘cataclysmig’ a ‘parhad’ yn cynnig esboniadau gor-bolareiddiedig o sut y digwyddodd y newid drosodd o’r Frythoneg i’r Saesneg yn ystod y cyfnod, ac mae’n ddigon posibl y byddai gwahanol ardaloedd wedi cael profiadau gwahanol. Nid yw’r naill dehongliad na’r llall yn afrealistig, ond dylid eu barnu hwy yn ôl y dystiolaeth sydd gennym o wybodaeth eang ieithyddiaeth, hanes, archaeoleg a hyd yn oed geneteg.

Hyd yn oed os yw bron pob awdur yn tueddu i ffafrio un ai’r dehongliad ‘cataclysmig’ neu’r dehongliad ‘parhad’, ymddengys fod y consensws sy’n datblygu yn lleddfu safbwyntiau digyfaddawd y naill ochr a’r llall a chydabod bod elfen o gataclysm yn ogystal ag elfen o barhad

yn y broses a welodd iseldir Prydain yn dod yn Lloegr. Efallai yn wir fod y dehongliad parhad, sy'n enwedig o boblogaidd ymhlith archeolegwyr Lloegr, ond yn adlewyrchu tueddiad *longue durée* (hir-dymor) o ddadansoddi oherwydd natur yr olion perthnasol – nid oes modd i'r olion adfer digwyddiadau hanesyddol dramatig sy'n digwydd mewn cyfnod byrhoedlog o rai blyneddoddd.

Mae difodi llwyr ar boblogaethau cyfan yn annhebygol iawn, ond mae fföedigaeth y brodorion cyn y Saeson neu cyn iddynt gael eu gwthio allan ganddynt yn hypothesis digon rhesymol i esbonio digwyddiadau. Yn Lloegr, y tu allan i Gymbria a Chernyw, awgrymwyd parhad y bobl Frythonaidd mewn rhai buchesi saint a deddfwriaethau cyfreithiol, ac yn sicr mewn nifer o enwau lleoedd sy'n cynnwys *eccles* 'eglwys' (wedi'i fenthg o'r Frythoneg ac yn dynodi anheddiad Cristnogol) a'r *walh* o'r Saesneg yn yr enw lle cyffredin *Walton* (er bod llawer yn deillio o'r enw cyffredin *wal*). Wedi'u hamgylchynu gan bobloedd Saesneg eu hiaith, wedi'u hamddifadu o rym gwleidyddol a chymdeithasol, mae'n annhebygol y byddai unrhyw gilfach o siaradwyr Brythoneg wedi goroesi yn Lloegr y tu hwnt i 800 OC. Ceir disgrifiadau cyflwyniadol o enciliad y Brythoniaid cyn y Saeson yn Jackson (1953), Myres (1986), Snyder (1998: Pennod 14), Charles-Edwards (2003: Cyflwyniad a Phennod1).

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- ALCOCK, Leslie. 1987. *Economy, Society and Warfare among the Britons and Saxons*. (Cardiff: University of Wales Press).
- CHADWICK, Hector M. (gol.). 1954. *Studies in Early British History*. (Cambridge: CUP).
- DARK, Ken. 2000. *Britain and the End of the Roman Empire*. (Stroud: Tempus).
- JACKSON, Kenneth H. 1953. *Language and History in Early Britain*. (Edinburgh: Edinburgh University Press).
- JACKSON, Kenneth H. 1969. *The Gododdin: the Oldest Scottish Poem*. (Edinburgh: Edinburgh University Press).
- PRICE, Glanville. 1984d. 'Latin'. Yn Glanville Price (gol.) *The Languages of Britain*. (London: Arnold), 158–69.
- PRICE, Glanville. 2000b. 'British'. Yn Glanville Price (gol.) *Languages in Britain and Ireland*. (Oxford: Blackwell), 70–77.
- SNYDER, Christopher A. 1998. *An Age of Tyrants: Britain and the Britons A.D. 400–600*. (Stroud: Sutton).
- WILLIAMS, Ifor. 1950. 'Wales and the North'. Yn Rachel Bromwich. 1980. *The Beginnings of Welsh Poetry: Studies by Sir Ifor Williams, D. Litt., Ll. D., F. B. A.* (Cardiff: University of Wales Press), 70–88.

Adnoddau ar y We

- BAKKEN, William. 1994. 'The end of Roman Britain: assessing the Anglo-Saxon invasions of the fifth century'. Yn < <http://members.aol.com/bakken1/angsax/asinv.htm> >
- VERMAAT, Robert M. 'Dark Age British earthworks – an interview with Dr. Ken Dark'.

Yn < wansdyke21.org.uk/wansdyke/wanart/dark.htm >
'The end of Roman rule'. Yn < http://www.postroman.info/endrome.htm >

3.3 Y CYMBRIAID (7G–11G)

Dechreuodd y Cymbriaid ddatblygu fel cangen ar wahân i'r Brythoniaid o'r 7G, ar ôl iddynt gael eu gwahanu o'u cyd-Gymry wrth i'r Saeson symud ymlaen tuag at Sir Gaer a Sir Gaerhirfryn. Yn wir mae enw eu tir (Lladin *Cumbria*, Saesneg *Cumberland*) yn dangos eu bod wedi rhannu'r un *ethnonym* â'r Cymry sy'n golygu 'cydwladwyr'. Erydwyd arweinwyr lluosog y Brythoniaid â thraddodiadau Cymreig yn yr Hen Ogledd wrth i'r Saeson symud ymlaen hyd nes erbyn y 9G dim ond llinach frenhinol Strathclyde oedd ar ôl. Wedi'u curo gan y Saeson, y Pictiaid a'r Gaeliaid o'r Alban, cafodd y deyrnas Frythonaidd hon ergyd drom gan y Sgandinafiaid yn y 870au a'u gorfodi i uno â theyrnas ehangol yr Alban yn 890 (clywir am y brenin dibynnol olaf 'Owen' yn 1018). Wedi hynny ffurfiwyd tywysogaeth ddibynnol oedd mewn cysylltiad agos â choron yr Alban gan gael ei throï yn Aelaidd (yn y gogledd) neu ei seisnigeiddio'n gyfan gwbl (yn y de). Erbyn y 12G roedd unig olion yr iaith i'w cael mewn rhai eitemau o eirfa gyfreithiol (ac mae un o'r rhain '*mercheta*' hyd heddiw mewn Cymraeg a Llydaweg yn golygu 'canlyn', neu'n llythrennol 'hel merched') ac mewn nifer o enwau lleoedd yn ne'r Alban a gogledd Lloegr ceir enwau megis *Penpont*, *Penrith* ac ati. Er gwaethaf prinder cofnodion brodorol o Gymbria, mae rheswm da i gredu bod 'Y Gododdin', y gerdd Gymraeg ganoloesol enwocaf, yn gerdd Gymbrieg cyn y'i trosglwyddwyd i Gymru. Y cyflwyniad gorau i hanes Cymbria yw Smyth (1984).

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

*PRICE, Glanville. 1984c. 'Cumbric'. Yn Glanville Price (gol.) *The Languages of Britain*. (London: Arnold), 146–54.

*SMYTH, Alfred P. 1984. *Warlords and Holy Men: Scotland AD 80–1000*. (Edinburgh: Edinburgh University Press). (Penodau 1, 7).

3.4 Y CERNYWIAID (7G–11G)

Yn wahanol i'r Cymbriaid, goroesodd y Cernywiaid i'r oes Fodern, ond er ein bod yn fwy cyfarwydd â'r Cernywiaid, mae eu hanes canoloesol cynnar yn fylchog iawn ac yn anodd ei ddehongli. Ymddengys i'r enw Cernyw ddeillio o ddaearyddiaeth yr ardal, sef penrhyn hirgul, (daw *corn* o'r Frythoneg) yn hytrach nag i unrhyw enw 'llwyth' Celtaidd megis y Cornovii a adwaenir mewn man arall. Yn wreiddiol ffurfiai ran o Dumnonia (tir y Dumnonii) a oedd yn cwmpasu'r cyfan o dde-orllewin Lloegr i'r gorllewin o wastadeddau Gwlad yr Haf (Somerset) a Chaerwysg (Exeter), ac a fenthyciwyd gan y Saeson yn yr enw *Devon*, Dyfnaint. Ar ryw adeg yn

yr 8G-9G concrwyd dwyrain Dumnonia ac ymsefydlodd y Saeson yno ac o hynny ymlaen fe'i hadwaenid yn (Swydd) Dyfnaint, tra parhaodd gorllewin Dumnonia (i'r gorllewin o afon Tamar) i fod yn gyfan gwbl Frythoneg gan felly gael ei wahaniaethu fel Cernyw (Cernyweg *Kernow*, Saesneg *Cornwall*, Lladin *Cornubia*). Roedd yna yn sicr frenin ar Gernyw o'r enw Doniert a fu farw yn 875, ond o hynny ymlaen ymddengys fod Cernyw wedi'i hintegreiddio â gwladwriaeth newydd Lloegr gan i Edmwnd, brenin Lloegr, yn 944 ei alw ei hun yn "Frenin y Saeson a llywodraethwr y dalaith Frythonaidd hon." Roedd gan Gernyw ei hesgob ategol brodorol ei hun yn nechrau'r 10G (Conan), ond ymddengys fod sefydlu esgobaeth Gernywaidd annibynnol yn Saint Germans rhwng 994-1046 yn ddealltwriaeth na pharhaodd yn hir. Caiff hanes cynnar Cernyw ei gymhlethu gan fodolaeth Cernyw a Dumnonia (Ffrangeg *Cornouaille*, *Domnonée*) yn Llydaw a'r cyfeirio di-hid at y Gymraeg yn ffynonellau Hen Saesneg wrth sôn am y Cernywiaid a'r Cymry. Arthur oedd arweinydd lled-chwedlonol y Brythoniaid wrth iddynt frwydro yn erbyn goresgynwyr Seisnig Prydain, a daeth ef yn anad neb yn gysylltiedig â Chernyw ac â chaer Gernywaidd Tintagel. Yn yr un modd, ymddengys fod chwedl ramantaidd Tristan ac Isolde (Trystan ac Esyllt) wedi'i gosod yn wreiddiol yng Nghernyw, chwedl a fyddai'n ddiweddarach yn dal dychymyg Ewrop i raddau helaeth (er, unwaith eto yn yr achos hwn, gellid hefyd leoli'r brenin Mark yn Llydaw).

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

*PAYTON, Philip. 2004. *Cornwall: a History*. (Fowey: Cornwall Editions). (Pennod 4).

3.5 Y CYMRY (6G–11G)

Ni ddaeth penrhyn eang a mynyddig gorllewin Prydain yn 'Cymru' hyd nes i'r Brythoniaid yno gael eu gwahanu o'u cydwladwyr yng Nghymbria a Chernyw yn y 7G. Yn wir ni chafodd yr hen enw Brython (Saesneg *Briton*) ond ei ddisodli'n araf deg gan 'Cymro' (sy'n golygu cydwladwr, *compatriot*) yn ystod dechrau'r Oesoedd Canol, a'r gair lluosog *Cymry* sy'n rhoi ei enw i'r wlad (er bod ailsillafu yn niwedd yr Oesoedd Canol yn artiffisial yn gwahaniaethu'r wlad 'Cymru' o'r bobl, y 'Cymry'). Cadarnheir ffiniau Cymru gan glawdd anferth o'r enw Clawdd Offa (*Offa's Dyke* yn Saesneg) a godwyd o dan frenin Mersia, sef Offa, yn y 790au ac arhosodd fwy neu lai yr un fath hyd yr 11G pan ailgipiodd y Cymry'r tir yn y gogledd-ddwyrain hyd at amddiffynfeydd Caer.

O holl diroedd y Brythoniaid, Cymru sydd wedi cadw'r mwyaf o lenyddiaeth ganoloesol gynnar er ei bod yn debyg fod llawer wedi'i golli yn ystod yr 11G pan aeth y Normaniaid Ffrangeg

ati i anrheithio. Ychydig iawn o destunau o darddiad Cymreig sydd wedi goroesi o'r cyfnod cyn ymosodiad y Normaniaid ar Gymru; er hynny mae llenyddiaeth Gymraeg ysgrifenedig a brodorol diweddarach yn tystio i barhad â'r cyfnod cyn y concwest (mae cyfansoddiadau o'r cyfnod cyn y concwest yn cynnwys barddoniaeth, achyddiaeth, blwyddnodau, y gyfraith a chwedlau – er bod rhai yn wreiddiol yn Lladin – ac er eu bod yn anghyflawn, maent yn ffynhonnell gyfoethog i hanes ac agweddau'r Cymry yn yr Oesoedd Canol cynnar a hyd yn oed mewn rhai achosion i rannau o Brydain lle ceid y Cymry). Bu tuedd, yn enwedig yn Llydaw, ond hefyd yng ngogledd Lloegr/de'r Alban, i ychwanegu at fylchau yn y dystiolaeth yn ymwneud â chymdeithasau Brythonaidd eraill yn nechrau'r Oesoedd Canol drwy gyfeirio at ffynonellau Cymreig: gall hyn fod yn ffordd beryglus o fwrw ati, hyd yn oed os gall cymhariaeth ofalus iawn rhwng y cymdeithasu hyn ein goleuo'n fawr. Rhaid cofio bob amser fod Cymru wedi'i hintegreiddio i raddau llai â gweinyddiaeth sifil yr Ymerodraeth Rufeinig nag iseldiroedd deheuol Prydain lle tarddodd hynafiaid y Cernywiaid a'r Llydawyr mae'n debyg, felly efallai na ddylid disgwyl iddynt fod wedi rhannu'r un arferion o'r dechrau un. Ymddengys fod y Cymry wedi benthyca llawer gan y Rhufeiniaid heb roi'r gorau i'w harferion a'u nodweddion diwylliannol eu hunain. Yn sicr, nid ymddengys fod cyfreithiau'r Cymry yn perthyn iawn i gyfraith y Rhufeiniaid ond yn hytrach i gymdeithas sy'n fwy seiliedig ar berthynas a charennydd.

Mae pwysau cronrus tystiolaeth lenyddol frodorol ac enwau lleoedd Cymraeg yn rhoi dirnadaeth gweddol gyffredinol inni o olyniaeth eang y gymdeithas Gymraeg yn yr Oesoedd Canol cynnar yn ôl i'r 6G. Yr hyn sy'n syndod yw bod y corff cymharol gyfoethog hwn o hen draddodiadau ar amryw o ranbarthau a lleoliadau yng Nghymru ar goll yn llwyr unwaith y croesir Clawdd Offa, a hynny hyd yn oed o fewn tafliad carreg i'r ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Dengys hyn ragfarn leol yn erbyn traddodiadau Cymreig a'r diffyg ysgolheictod ymchwilgar cynhwysfawr i gorff testunau'r Oesoedd Canol cynnar oedd o darddiad Cymreig. Mae'r eithriad, yr *Historia Brittonum* o'r 9G, yn ddi-fflach ac yn anghyflawn yn yr hyn mae'n ei gyflawni o'i gymharu â *History of the English People* cynharach gan Bede. Yr adroddiadau llawnaf cyffredinol am Gymru'r Oesoedd Canol cynnar yw Lloyd (1939) ac W. Davies (1982).

Llyfryddiaeth Ddethol (* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- *DAVIES, John. 2007. *A History of Wales*. (London: Penguin). (Pennod 3).
DAVIES, Wendy. 1982. *Wales in the Early Middle Ages*. (Leicester: Leicester University Press).
DILLON, Myles & CHADWICK, Nora K. 1969. *The Celtic Realms*. (London: Weidenfeld & Nicolson).
KIRBY, David P. 1977. 'Hywel Dda: anglophile?'. Yn *Welsh Historical Review* 8.1–13.
LLOYD, John. 1939. *The History of Wales from the earliest Times to the Edwardian Conquest: vol.1*. (London: Longmans & Green). (arg. 1af 1911).

*WILLIAMS, Gwyn A. 1985 *When was Wales? A History of the Welsh*. (London: Black Raven). (Penodau 2–3).

3.6 Y LLYDÄWYR (5G–10G)

Daethpwyd i adnabod y Brythoniaid a groesodd y môr i ymsefydlu yng Ngâl fel Llydäwyr a'u gwlad yn Llydaw (mae'r cyfatebol yn Ffrangeg *Breton* a *La Bretagne* yn cyfeirio un ai at Lydäwyr/Llydaw neu Prydeinwyr/Prydain o ble daw'r cydleoiliad arferol *La Grande Bretagne* am Brydain). Gellid dadlau bod tri phrif llyn o ddiddordeb hanesyddol yn ymwneud â Llydaw'r Oesoedd Canol.

Yn gyntaf pam, pryd a sut y trawsffurfiwyd gogledd-orllewin Gâl (Ffrainc) yn Brydain fach? Mae'r ymwneud oedd rhwng y Brythoniaid oedd yn cyrraedd a'r Galiaid brodorol yn bwnc llosg: ai ymlediad elite diwylliannol ('parhad') ynteu ai amnewid ethnig ('cataclysmig') ydoedd? Pa gysylltiad oedd yna rhwng y Llydäwyr cynharaf a'r Ffrancod Germanaidd a oresgynnodd Gâl a chreu teyrnas gynharaf Ffrainc yn y 5G? Beth oedd natur y corff Cristnogol yn nechreuad Llydaw? Ceir y cyflwyniadau gorau i'r ymsefydlu yn Llydaw gan Chadwick (1965), Fleuriot (1980)¹ a Giot et al. (2003).

Yn ail, ceir cyfnod gwrthryfel Nomenoe yn erbyn yr ymerawdwr Ffrengig a sefydlodd deyrnas annibynnol Llydaw ar ôl 849, teyrnas a barhaodd hyd nes y'i dinistriwyd gan Lychlynwyr yn 913–36. Yn sgil llwyddiant gwleidyddol yr arweinwyr Brythonaidd ar yr adeg hon cydfeddiannwyd siroedd Ffrangeg eu hiaith – Rennes a Nantes – ac arweiniodd hyn at hwyluso llawer o ddylanwadau Carolingiaidd mewn gwleidyddiaeth a diwylliant. Gweler Smith (1992).

Yn drydydd, gwelwn sefydlu dugiaeth ac nid teyrnas Llydaw pan ddaeth Llydäwr i reoli eto yn 936.

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

CHADWICK, Nora K. 1965. *The Colonization of Brittany from Celtic Britain*. (London: Oxford University Press).

FLEURIOT, Léon. 1980. *Les Origines de la Bretagne*. (Paris: Payot).

GIOT, Pierre Roland & GUIGON, Philippe & MERDRIGNAC, Bernard. 2003. *The British Settlement of Brittany: The First Bretons in Armorica*. (Stroud: Tempus).

PRICE, Neil S. 1989. *The Vikings in Brittany*. (London: Viking Society for Northern Research).

SMITH, Julia M. H. 1992. *Province and Empire: Brittany and the Carolingians*. (Cambridge: Cambridge University Press).

3.7 BRYTHONIAID GALISIA (5G–8G)

¹ Yn Ffrangeg, ddim ar gael yn Saesneg.

Roedd y Brythoniaid oedd yn ffoi rhag y fyddin Seisnig ym Mhrydain wedi ymsefydlu fel grŵp yng Ngalisia yng ngogledd-orllewin Iberia (Sbaen) erbyn canol y 5G. Caiff eu hesgobion, oedd ag enwau Brythoneg megis *Haeloc*, eu cadarnhau yn nheyrnas Sbaenaidd Wisigothig mor ddiweddar â'r 8G. Ymddengys i'r gangen hon yn Galisia ddod i ben fel grŵp gwahanol ar wahân o fewn rhai canrifoedd, a'r cyfan sy'n weddill yw eglwys – oedd unwaith yn esgobaeth – sef Santa Maria de Britonia yng Ngalisia.

3.8 Y GWYDDELOD (4G–12G)

Ni chaiff y term Gael (*Goidel* gynt), a roddodd y Gwyddelod arnynt eu hunain, ei gadarnhau cyn y 7G ac yn rhyfedd ddigon credir ei fod yn tarddu o'r gair Brythoneg sy'n golygu 'gwyllt' ac felly ymddengys ei fod yn wreiddiol yn *exonym* (sef enw a roddir gan eraill, o'i gymharu ag *endonym*, a roddir eich hunan). Y Gaeliaid, a siaradai amrywiaeth-Q o'r Gelteg, oedd cyfran frodorol fawr o drigolion Celtaidd Iwerddon yn ystod cyfnod y Rhufeiniaid. Ac er bod rhai ardaloedd wedi'u coloneiddio gan y Brythoniaid (Gwyddeleg *Breatan*) yn y de, e.e. *Dúnbreatan* yn Swydd Waterford, ac i raddau helaeth gan yr Ictiaid (Gwyddeleg *Cruithin*) yn y gogledd-ddwyrain, trowyd y rhain yn gyfan gwbl Aelaid yn gynnar yn y cyfnod canoloesol.

Erbyn diwedd cyfnod y Rhufeiniaid, y Gaeliaid eu hunain oedd yn coloneiddio rhannau o orllewin Prydain, Cernyw a Dyfnaint, Cymru, Ynys Manaw a rhannau o'r Alban. Yn rhannau deheuol Prydain, cafodd y Gaeliaid eu hymgorffori i'r poblogaethau Brythonig a daeth y brenhinoedd Gaelaidd yn araf yn Frythoniaid. Mae arysgrif o'r 5G yng Nghastell-dwyrain yn enwi brenin de-orllewin Cymru yn ddwyieithog, sef yn *Voteporigis* yn y Frythoneg ac yn *Votecorigas* yn yr Wyddeleg; erbyn y 9G roedd tarddiad Gaelaidd y llinach frenhinol hon wedi'i sensro gan achyddion Cymru. Ar y llaw arall, yn Ynys Manaw a'r Alban canlyniad gwladychu'r Gaeliaid oedd iddynt gymryd drosodd y tir yn barhaol a dyma ddechreuad yr Albanwyr a'r Manawiaid. Parhaodd y cysylltiadau rhwng Alban ac Iwerddon mor ddi-dor hyd nes y gallwn sôn am gontinwwm yr iaith Aeleg a barhaodd tan ddechrau'r ganrif bresennol. Yn y 1870au, roedd siaradwyr Gwyddeleg o Sir Antrim a fynychai ffeiriau ar Ynys Arran yr Alban yn gallu sgwrsio yn ddigon rhwydd â'r Gaeliaid lleol. Fel y dywed Colm Ó Baoill, dim ond oherwydd y caiff y termau Gwyddeleg (*Irish*) a Manaweg (*Manx*) eu defnyddio mor gyffredin y methwn â gweld bod yr 'ieithoedd' hyn yn cael eu galw yr un enw gan eu siaradwyr (*Gaeluinn*, *Gaeilge*, *Gaeilig*, *Gàidhlig* yn ôl y dafodiaith unigol).

Ni ddigwyddodd y dröedigaeth i Gristnogaeth yn Iwerddon dros nos, ac mae'n fwy na thebyg bod cynulleidfaoedd o gredinwyr wedi ymgartrefu yno dan ddylanwad masnachu â'r Ymerodraeth Rufeinig ymhell cyn y penodwyd Palladius yn esgob arnynt gan y Pab yn 431.

Roedd Padrig (*Patrick, Patricius*), yr apostol traddodiadol, yn weithgar yn rhan ogleddol Iwerddon a hithau yn dal yn baganaidd yn ail hanner y 5G. Brython o Gristion ydoedd a gafodd ei ddal gan ymosodwyr o Iwerddon. Mae'r dystiolaeth brin sydd gennym o'r cyfnod hwnnw yn dweud wrthym mai'r 6G yw'r adeg y daeth Iwerddon yn wlad Gristnogol. Ymddengys mai'r prif gatalydd a ysgogodd ymlediad Cristnogaeth oedd y bri yr oedd yr Eglwysi ym Mhrydain a Gâl yn dal yn ei roi ar yr Ymerodraeth Rufeinig (bu trefedigaethau Gwyddelig yng Nghernyw a De Cymru ers y 5G). Priodolwyd safonau edifeiriol dylanwadol o'r 6G i'r sant Brythonig Gildas, a dadleuwyd yn argyhoeddiadol nad oedd y *Finnian* enwog o'r 6G yn neb llai na'r sant Brythonig *Gwynio*. Ymddengys fod nifer yn y dosbarthiadau dysg traddodiadol wedi troi at Gristnogaeth gan fynd ati'n fuan i sefydlu mynachlogydd ar diroedd y rhoddwyd iddynt gan y brenhinoedd. Tybir bod Cristnogaeth wedi meddiannu ffynhonnau a safleoedd a oedd yn sanctaidd cyn hynny (enghraifft o hynny yw'r dduwies *Brigantia* a ymddengys ei bod wedi'i hewhemereiddio yn santes, y Ffraid/*Brigid* enwog o Cildara). Sefydlodd y mam-fynachlogydd is-fynachlogydd, ac yn fuan roedd cyfundebau mynachaid yn nodweddu Cristnogaeth Iwerddon a'r cyfundebau hynny yn aml yn gysylltiedig â theyrnasoedd penodol. A thra bod Cristnogaeth Prydain yn y 6G wedi dioddef ergydion colli tiriogaeth i'r Saeson, roedd Cristnogaeth Iwerddon yn ffynnu yn y cyfnod hwn. Yn wir, ar ôl i Columbanus (†615) symud i ddwyrain Ffrainc tua 590, bu ehangu trawiadol ar weithgareddau cenhadol yn y 7G yn yr ardal sydd erbyn heddiw yr Almaen a'r Swistir gan fynaich o darddiad Gwyddelig (a adwaenid bryd hynny fel rheol yn Albanwyr). Cyfrannodd yr oes aur Wyddelig hon o efengylu at gristioneiddio Almaenwyr ac mae'n esbonio pam fod yr enghreifftiau hynaf o'r Wyddeleg fel esboniadau neu nodiadau ar lawysgrifau Lladin wedi goroesi yn yr Almaen a'r Eidal (glosau Würzburg, Sankt Gall, Milan, Turin yn dyddio o'r 8G-9G). Mae tystiolaeth bod alltudiaeth fynachaid Wyddelig wedi disodli'n llwyr alltudiaeth fynachaid Frythonaidd flaenorol o'r 5G a'r 6G (yn wir mae nifer o lawysgrifau yn cynnwys glosau mewn Hen Wyddeleg yn ogystal â'r Frythoneg).

Ymddangosodd y Llychlynwyr (Gw. *Lochlannaigh*) yn gyntaf fel ymosodwyr o'r môr yn 795 ac roeddynt yn ymosodwyr cyson ar Iwerddon, yn enwedig ar ei mynachlogydd, ar ddechrau'r 9G. Ar aberoedd afonydd mawr yn y 830au sefydlodd llyngesau mawr ganolfannau i ddechrau eu hymosodiadau ohonynt, ac yn fuan tyfodd y rhain yn borthladdoedd ag iddynt amddiffynfeydd, a'r enw arnynt yn yr Wyddeleg oedd *longphort*. Tyfodd trefi masnachu arfordirol ar safle'r porthladdoedd amddiffynnol hyn yn Nulyn (841), Cork (canol y 9G), Wexford (c.921), Waterford (917), Limerick (922) ac erbyn 900 roedd y rhain wedi datblygu i fod y trefi cyntaf yn Iwerddon (er mai Llychlynwyr oedd yn byw ynddynt ar y dechrau) a'r Llychlynwyr hyn a fathodd y darnau arian Gwyddelig cyntaf. Drwy gydol y 9G a'r 10G roedd brenhinoedd Llychlynnaidd Dulyn yn ymwneud llawer iawn â rhyfeloedd yng ngogledd Prydain a thrwy'r rhain daethant â llawer o

bethau gwerthfawr a chaethweision i Iwerddon (yn wir rheolai'r un teulu Dulyn ac Efrog hyd at 952). Erbyn 1000 roedd y Llychlynwyr fwy na heb wedi troi i Gristnogaeth ac fe'u cymhathwyd i fywyd Gwyddelig. Fesul tipyn, daeth brenhinoedd Iwerddon i reoli'r trefi hyn, gyda Limerick yn syrthio yn 967, a Dulyn yn ildio yn 1052 (sawl blwyddyn ar ôl buddugoliaeth enwog y Gwyddelod yn Clontarf yn 1014, a ystyrir yn draddodiadol i fod yn ddiwedd y Llychlynwyr).

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- BOURKE, Cormac. 2001. 'A view of the early Irish Church'. Yn Anne-Christine Larsen (gol.). 2001. *The Vikings in Ireland*. (Roskilde: Viking Ship Museum).
- DILLON, Myles & CHADWICK, Nora K. 1969. *The Celtic Realms*. (London: Weidenfeld & Nicolson).
- LARSEN, Anne-Christine (gol.). 2001. *The Vikings in Ireland*. (Roskilde: Viking Ship Museum).
- LE DUC, Gwenaël. 1994. 'The contribution to the making of European culture of Irish monks and scholars in medieval times'. Yn James P. Mackey (gol.) *The Cultures of Europe: the Irish Contribution*. (Belfast: Institute of Irish Studies, Queen's University of Belfast).
- PRICE, Glanville. 1984b. 'Irish in early Britain'. Yn Glanville Price (gol.) *The Languages of Britain*. (London: Arnold), 28–38.

3.9 YNYS MANAW (5G–13G)

Roedd Ynys Manaw yn wreiddiol yn deyrnas Frythonaidd, a chofnodir bod un o'i brenhinoedd o ddiwedd yr 8G, Gwriad, yn y fynwent ym Maughald. Aeth mab Gwriad, Merfyn Frych, draw i Gymru yn 825 a sefydlu llinach a reolodd teyrnas Gwynedd hyd ddiwedd annibyniaeth y Cymry yn 1282. Mae arysgrifau Ogam yn cadarnhau presenoldeb cynnar y Gaeliaid ym Manaw, ond ni wyddys beth oedd yr union berthynas rhwng y Gaeliaid a'r Brythoniaid, nac ychwaith beth ddigwyddodd ar ôl i Merfyn adael am Gymru. Erbyn diwedd y 9G, roedd y Llychlynwyr wedi dod i reoli Ynys Manaw ac roeddynt i reoli yno am ganrifoedd. Roedd Manaw'r Llychlynwyr wedi'i chysylltu'n agos â theyrnasoedd Llychlynnaidd Dulyn ac Ynysoedd Erch/*Orkney* – teyrnas oedd yn goruchafu dros lawer o aneddiadau Llychlynnaidd gorllewin Prydain. Yn 1079 sefydlodd Godred Crovan ei reolaeth ar Ynys Manaw ac Ynysoedd Heledd/*Hebrides* (gan hyd yn oed reoli Dulyn am gyfnod) a sefydlu teyrnas Manaw a'r Ynysoedd a reolwyd gan ei ddisgynyddion hyd at 1266. Yn 1164 sefydlodd Somerled (*Somhairle* yng Ngaeleg yr Alban) deyrnas yr Ynysoedd (*Hebrides*) gan felly adael disgynyddion Godred i reoli Ynys Manaw yn unig. Roedd teyrnas Manaw yn talu gwrogaeth i frenin Norwy a phan ildiodd Magnus VI ei reolaeth dros deyrnas Manaw a theyrnas yr Ynysoedd, talwyd gwrogaeth i frenin yr Alban yn 1266. Wedi hynny rheolid Manaw o'r Alban neu Loegr.

Fel ardaloedd Llychlynnaidd eraill, roedd manteision bod â grym yn y môr yn rhoi mwy o bwysigrwydd gwleidyddol i Ynys Manaw na fyddai ei hardal diriog fychan yn ei awgrymu. Roedd Ragnvald Godredsson, rheolwr Ynys Manaw a'r Ynysoedd (rheolai 1187-1226) yn rym i ryfeddu ato yn y moroedd rhwng Prydain ac Iwerddon; roedd yn noddwr i'r tai crefyddol ar lannau Môr Iwerddon ac roedd ganddo berthynas ddiplomataidd â rheolwyr y tiroedd yn y cyffiniau a thu hwnt. Fe'i canmolwyd fel rhyfelwr o fri gan y beirdd Gwyddelig a'r awduron saga o Wlad yr Iâ. Nid yw'n glir beth oedd yr union berthynas rhwng y Gaeliaid a'r Llychlynwyr yn ystod y cyfnod Llychlynnaidd o'r 9G hyd at y 13G ond, fel ardaloedd eraill yng ngorllewin a gogledd yr Alban a dra-arglwyddiaethid gan y Llychlynwyr, erbyn 1300 roedd Ynys Manaw wedi dod yn wlad a siaradai Aeleg yn llwyr.

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

YOUNG, G. V. C. 1981. *History of the Isle of Man under the Norse: or, now through a Glass Darkly*. (Peel – Torshavn: Mansk-Svenska).

3.10 GAELIAID YR ALBAN (5G–11G)

Mae dechreuad Gaeliaid yr Alban yn mynd yn ôl i'r gwladychu gan y Gwyddelod yn y cyfnod ar ôl y Rhufeiniaid ar lannau gorllewin yr Alban a adwaenid yn *Oirthir Gaedheal* 'ymylon Gaelaidd' (*Argyll* erbyn heddiw, sef arfordir gorllewin yr Alban yr holl ffordd i fyny i Ardnamurchan). Roedd y Gaeliaid yn sicr yn bresennol yn yr Alban erbyn y 6G gan dynnu sylw atynt eu hunain o dan eu brenin nerthol Aedán mac Gabrán o ddiwedd y 5G wrth iddo ymosod yn ddwfn i diroedd y Pictiaid. Ymddengys fel petai Gaeliaid yr Alban wedyn wedi ymrannu o dan reolwyr gwahanol ac nid oeddynt yn gallu gwneud fawr o gynnydd gwleidyddol yn erbyn y Pictiaid. Yn draddodiadol, credir mai Kenneth mac Alpin a unodd Argyll â'r deyrnas Pictaidd yn y 840au yn deyrnas newydd yr Alban (Lladin *Scotia*). Roedd y term 'Scot' yn wreiddiol yn golygu Gwyddel ond wrth iddynt hwy gymryd drosodd rhan ogleddol Prydain daethpwyd i adnabod y tir hwnnw fel yr Alban (enw Gaeleg y wlad yw *Alba* yn wreiddiol a olygai 'Prydain'). Er hynny – fel y dangosodd Smyth (1984: 179) – roedd Kenneth mac Alpin wedi'i ragflaenu fel arweinydd y ddwy genedl gan reolwyr Argyll eraill yn y genhedlaeth flaenorol, sef Constantin mac Fergus (†820), a reolai o diroedd y Pictiaid yn hytrach nag Argyll. Deillia enwogrwydd Kenneth mac Alpin o'r ffaith iddo gael gwared â'r achosion olaf o wrthwynebiadau o du'r Pictiaid yn erbyn y Gaeliaid yn gynnar yn ei deyrnasiad ac mae ef oedd y cyntaf mewn llinach hir o frenhinoedd ar deyrnas unedig newydd yr Alban.

Gellir esbonio goruchafiaeth sydyn y Gaeliaid ar y Pictiaid gan bwysau ymosodiadau'r Llychlynwyr ar yr arfordiroedd gorllewinol a arweiniodd at adael cymuned fynachaid enwog Iona rhwng 807-49. Ond roedd dylanwad y Gaeliaid wedi bod yn treiddio i Brydyn (*Pictland*) ers o leiaf y 7G yn enwedig oherwydd ehangu trefnus eglwysi Columba yn Iona (yn 717 roedd y brenin Pictaidd Nechtan wedi gyrru clerigwyr Iona o'i diroedd). Mae dosbarthiad y term eglwysig Gaeleg *cill* sef 'eglwys' yn yr Alban yn awgrymu fod y Gaeliaid erbyn dechrau'r 9G eisoes wedi ymdreiddio mewn niferoedd sylweddol i mewn i dde Prydyn a Moray Firth, er nad i rannau mwy dwyreiniol Prydyn rhwng Elgin a Dundee (Nicolaisen 2001: 165-68, 183-86). O'r 9G ymlaen, o dan arweinwyr Gaelaidd, a – gellid tybio – mewnlfriad o Gaeliaid yn dianc rhag ysbeilio'r Llychlynwyr yn y gorllewin, ildiodd yr iaith Picteg yn y pen draw a daeth holl bobl yr Alban i siarad Gaeleg. Y cyflwyniad gorau i hanes cynnar Gaeliaid yr Alban yw Smyth (1984, penodau 4 a 6), Laing a Laing (1993, pennod 2).

Dechreuodd y Llychlynwyr sicrhau lle blaenllaw iddynt eu hunain ar lannau'r gorllewin drwy ymosodiadau ac ysbeilio treisgar erbyn dechrau'r 9G. Er nad oes adroddiad clir ynghylch sut yn union y trodd y cyrchoedd hyn yn aneddiadau, cytunir yn gyffredinol bod y Llychlynwyr erbyn 900 wedi ymsefydlu'n helaeth ar Ynysoedd y Gogledd (Shetland ac ynysoedd Erch/*Orkney*), yn y rhan fwyaf o gyrion pellaf yr Alban (o Beaully fyny am y gogledd), ar hyd arfordir cyfan y gorllewin, Ynysoedd y Gorllewin (Ynysoedd allanol Heledd, Tiree a llawer o ynysoedd eraill). Ar y dechrau, ymddengys fel petai'r Llychlynwyr wedi disodli'r boblogaeth Geltaidd o Aeliaid a Phictiaid oedd yno'n barod, ond yn ddiweddarach wrth i'r canrifoedd fynd heibio daethant yn fwy Gaelaidd ac erbyn tua 1300, ar yr hwyraf, roedd Ynysoedd y Gorllewin yn gyfan gwbl Gaeleg eu hiaith. Digwyddodd yr un peth, yn gynt yn ddiau, ar dir mawr yr Alban, er bod Caithness (*Gallaibh* '[yr] estronwyr' yng Ngaeleg yr Alban), sef pen uchaf gogledd-ddwyrain Sutherland yn wreiddiol, wedi cadw ei Norwyeg i'r cyfnod modern cyn i'r Scoteg a'r Saesneg gymryd drosodd. Goroesodd y Norseg – *Norn* fel y'i gelwir – hyd yn oed yn ddiweddarach ar Ynysoedd Erch a Shetland, ond yma hefyd daeth y Scoteg ac yna'r Saesneg yn ei lle.

Ymsefydlodd y Llychlynwyr ym mhenrhyn de-orllewin yr Alban hefyd ychydig yn ddiweddarach yn y 10G, a hwythau eisoes wedi ymsefydlu yn Iwerddon ac Ynys Manaw. Roedd y Llychlynwyr hyn, yn gymysg â Gaeliaid, wedi datblygu grŵp cymysg o'r enw *Gall-Ghaidheil* 'Gaeliaid tramor' ac mae'r enw ethnig hwn wedi'i drosglwyddo i'r rhanbarth gan ddiweddu yn Saesneg yn Galloway. Yn y pen draw, megis mewn llawer o ardaloedd eraill, yr iaith a barhaodd gryfaf oedd yr Aeleg. Mae'n eironig i raddau bod yr Aeleg yn yr 20G ond wedi goroesi yn yr ardaloedd oedd unwaith yn bennaf neu hyd yn oed yn gyfan gwbl Norseg, ac mae anthropolegwyr, ieithyddion a haneswyr wedi bod yn gyflym i gysylltu rhai nodweddion penodol Gaeliaid yr Alban yn yr G20 – yn ffisegol ac yn ddiwylliannol – â'u llinach Lychlynnaidd dybiedig.

Llyfryddiaeth Ddethol (* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- LAING, Lloyd & LAING, Jennifer. 1993. *The Picts and the Scots*. (Stroud: Sutton).
- *MACLEOD, John. 1996. *Highlanders: a History of the Gaels*. (London: Hodder & Stoughton). (Pennod 2).
- *SMYTH, Alfred P. 1984. *Warlords and Holy Men: Scotland AD 80–1000*. (Edinburgh: Edinburgh University Press). (Penodau 4–7).

3.11 Y PICTIAID (3G–9G)

Ymddengys fod Pictiaid canoloesol cynnar yr Alban, sef pobl frodorol ar wahân i'r Brythoniaid a'r Gwyddelod, wastad wedi codi chwilfrydedd ac ysbrydoli pob math o ddamcaniaethau cyfrin ynghylch eu tarddiad. Fe'u cofnodwyd am y tro cyntaf o dan yr enw hwnnw ar ddiwedd yr Ymerodraeth Rufeinig ac mae'r enw Pentland Firth, rhwng Ynysoedd Erch/*Orkney* a Caithness, a dybir i fod yn Norseg *Pettarlan* (Cymraeg *Prydyn*, Saesneg *Pictland*), yn golygu fod y Pictiaid yn dal yn bobl adnabyddadwy yn nechrau'r 9G. Er hynny, nid oedd eu bodolaeth fel cenedl i bara yn sgil undeb gwleidyddol y 9G â'r Gaeliaid ac fe'u llyncwyd i deyrnas newydd yr Alban, Gaeleg ei hiaith, heb sôn amdanynt wedyn oni bai fel hil lled-chwedlonol darfodedig.

Nid oes anghytundeb fod gan y Pictiaid iaith a ystyrir yn wahanol yn nechrau'r Oesoedd Canol, ond gan nad oes yna fawr o olion wedi'i ddogfennu wedi goroesi o'r iaith a bod llawer o'r olion hynny yn annealladwy, nid oes cytundeb eang ynghylch natur eu hiaith. Ym mhob tebygolrwydd y Pictiaid oedd y Brythoniaid hynny yn y gogledd na chawsant erioed eu goresgyn gan y Rhufeiniaid, a datblygodd eu hiaith o dafodiaith debyg i iaith y Brythoniaid deheuol (sef hynafiad Cymraeg modern); gellir cefnogi hyn gan ambell debygrwydd geiriol rhwng y Gymraeg ac enwau lleoedd Prydyn nad ydynt i'w cael yn Iwerddon, e.e. *aber* yn Aberdeen ac Aberystwyth; *monadh* 'mynydd-dir' Gaeleg yr Alban yn gytras i *mynydd* yn Gymraeg fel a geir yn Monadh Liath. O'i ddosbarthiad yn nwyrain Alban a'i absenoldeb yn Iwerddon, mae'r gair darfodedig *peit* 'rhan/cyfran' yng Ngaeleg yr Alban i'w gael mewn sawl enw, megis Pitlochry, ac yn ddangosadwy yn fenthyciad o'r iaith a ragflaenai'r Aeleg, sef Picteg. Ymhellach, mae'r ffaith fod y gair yn cynnwys <p> yn cadarnhau fod Picteg yn ffurf ar y P-Celteg (diagnosteg bwysig wrth wahaniaethu amrywiaethau'r Gelteg), gan gadarnhau unwaith eto agosatrwydd Picteg at y Frythoneg yn hytrach nag at yr Aeleg.

Er na ellir amau erbyn hyn bod Celteg wedi bodoli ym Mhrydyn yn y cyfnod hwn, bu argyhoeddiad ystyfnig ymysg rhai ysgolheigion fod Picteg yn iaith nad oedd yn un Indo-Ewropeaidd, h.y. iaith a oedd yn bodoli cyn dyfodiad y Celtiaid. Yr Athro John Rhys o Rydychen

a gynigiodd yr esboniad hwn yn 1892, ac wedyn yr Athro Heinrich Zimmer o Berlin yn 1894. Wedi'u cysuro gan fodolaeth y Fasgeg, nad oedd yn Indo-Ewropeaidd, yn y Pyreneau (Pyrenees), roedd eu hypothesis yn seiliedig ar:

1. nifer o arysgrifau anneongladwy yn dyddio o'r seithfed i'r nawfed ganrif a gafwyd yng nghanol teyrnas y Pictiaid, ac
2. olyniaeth dybiedig o frenhinoedd o ochr y fam nad oedd yn draddodiad Indo-Ewropeaidd, yn seiliedig ar frawddeg gan yr hanesydd o'r seithfed ganrif o ogledd Lloegr, Bede.

Alfred Smyth, yn ei lyfr *Warlords and Holy Men* (1984), a gododd amheuan ynghylch y farn fod gan y Pictiaid olyniaeth ar ochr y fam i'w brenhinoedd, ac oni bai am nifer o enwau personol mae arysgrifau anneongladwy Prydyn yn parhau am y tro i fod felly: sef yn anneongladwy ar y cyfan (gydag ymdrechion anargyhoeddiadol i'w dehongli drwy droi at y Fasgeg neu'r Norseg). Y gwaith arweiniol gorau ar hanes y Pictiaid yw Smyth (1984, Pennod 2) ac ar broblem yr iaith Picteg gweler Jackson (1955), Forsyth (1997).

Llyfryddiaeth Ddethol (* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- FORSYTH, Katherine S. 1997. *Language in Pictland: the Case against 'Non-Indo-European Pictish'*. (Munster: Nodus). Yn < <http://eprints.gla.ac.uk/2081/01/languagepictland.pdf> >
- JACKSON, Kenneth H. 1955. 'The Pictish language'. Yn Frederick T. Wainwright (gol.) *The Problem of the Picts* (Edinburgh: Nelson), 129–66.
- LAING, Lloyd & LAING, Jennifer. 1993. *The Picts and the Scots*. (Stroud: Sutton).
- PRICE, Glanville. 2000c. 'Pictish'. Yn Glanville Price (gol.) *Languages in Britain and Ireland*. (Oxford: Blackwell), 127–31.
- *SMYTH, Alfred P. 1984. *Warlords and Holy Men: Scotland AD 80–1000*. (Edinburgh: Edinburgh University Press). (Pennod 2).
- WAINWRIGHT, Frederick T. 1955b. 'The Picts and the problem'. Yn Frederick T. Wainwright (gol.) *The Problem of the Picts* (Edinburgh: Nelson), 1–53.